

Adolygiad o Ymgysylltu – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1822A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod Adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru trwy e-bostio swyddoggybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflwynodd y gwaith yn cynnwys Matthew Brushett a Steve Frank.

Cynnwys

Mae'r Awdurdod yn dda am gynnwys partneriaid a chymunedau ond mae angen iddo gryfhau ei werthusiad er mwyn dangos effaith gadarnhaol ei waith.

Adroddiad cryno.


Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	4
Ymgysylltu	5
Cwmpas ein harchwiliad	6
Ein canfyddiadau	6
Cynigion ar gyfer gwella	12
Atodiadau	
Atodiad 1 – enghreifftiau o ddulliau ymgysylltu yn Awdurdodau Tân ac Achub y DU	16

Adroddiad cryno

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

- 1 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 'Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith hefyd sy'n dweud wrth y gyrff cyhoeddus hynny a gwmpesir gan y Ddeddf sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd.
- 2 Wrth wneud eu penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nodir y rhain yn **Arddangosyn 1**. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio'n helpu gyrff cyhoeddus i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir sy'n wynebu Cymru.

Arddangosyn 1: yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio



Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – [Yr Hanfodion](#)

Ymgysylltu

- 3 Mae ymgysylltu'n ymwneud â chael sgysiau cyfoethog ac ystyrion â'r bobl yn eu cymuned, canfod beth sy'n bwysig iddynt, ac adlewyrchu hynny yn y penderfyniadau y mae Awdurdodau'n eu gwneud. Mae ymgysylltu'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored i ddylanwad dinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud i'. Yn wahanol i ymgynghori, mae dulliau ymgysylltu'n gweithio gyda phobl yn ystod cyfnodau cynharach, megis helpu i nodi problemau ac atebion posibl, a chael eu cefnogi i barhau i ymgysylltu drwy gydol prosesau cynllunio, gweithredu a gwerthuso.
- 4 Gan ddefnyddio ein cyflwyniad adborth diweddaraf gerbron Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad, yr Awdurdod Tân ac Achub (yr 'Awdurdod') ar 9 Medi 2019, Diogelwr Taith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#) a ddatblygwyd gan Participation Cymru, mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi nodweddion sefydliad sydd ag agwedd effeithiol at ymgysylltu.

Arddangosyn 2: nodweddion corff cyhoeddus sydd â dull effeithiol o ymgysylltu

Dyma nodweddion ymgysylltu effeithiol...



- 5 Felly, dylai awdurdodau bennu eu agenda drwy wrando ar bobl, eu cynnwys yn ystyrion drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau, a bod yn agored i newid gwirioneddol o ganlyniad i hynny. Mae'n hanfodol bod gweithgareddau a mecanweithiau ar gyfer cynnwys pobl yn cael eu cynllunio, eu monitro a'u hadrodd yn briodol, fel y gellir eu datblygu, eu herio neu eu hyrwyddo. Mae'n hanfodol sicrhau bod gan staff a sefydliadau'r sgiliau, y strwythurau yn ogystal ag amser ac adnoddau angenrheidiol i gynnwys y cyhoedd yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd a'u hanghenion, yn hytrach na'r hyn y tybiwn yn draddodiadol sy'n gweithio orau.

Cwmpas ein harchwiliad

- 6 O gofio'r heriau y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu wrth ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy, rydym wedi adolygu dull yr Awdurdod o weithredu a rheoli'r broses o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i'r gwasanaeth a pholisïau ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac wrth gynllunio gweithgareddau. Aethom ati i edrych yn fanylach ar sut mae'r Awdurdod yn cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-25 newydd ac wrth gynllunio digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd megis diwrnodau agored gorsafoedd tân, digwyddiad Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (UKRO) yn 2018 a digwyddiad Gwasanaethau Brys yn 2019.

Ein canfyddiadau

- 7 Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod **gan yr Awdurdod ymagwedd dda tuag at gynnwys partneriaid a chymunedau ar y cyfan ond mae angen iddo gryfhau ei effaith trwy werthuso ymagweddau cyfredol er mwyn gwella gweithgarwch yn y dyfodol**. Daethom i'r casgliad hwn am ein bod wedi canfod y canlynol.

Mae gan yr Awdurdod ddull effeithiol o ymgysylltu â staff a phartneriaid yn ei waith cydraddoldeb ac amrywiaeth ond gallai wneud mwy i wreiddio dysgu a chryfhau ei ffocws ar effaith

- 8 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu polisi strategol clir ar gyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu - a elwir yn Bolisi Corfforaethol 4. Mae'r polisi hwn bellach wedi'i integreiddio'n llawn i Gynllun Strategol yr Awdurdod thema/lles Amcan 3: Ymgysylltu a Chyfathrebu. Adroddir ar y cynnydd o ran y 22 o gamau gweithredu sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu drwy'r System Rheoli Gwybodaeth Busnes (BMIS). Mae'r Awdurdod yn cynyddu ei ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol ac yn eu monitro, ac yn eu defnyddio bellach fel dull o ymgysylltu.

- 9 Mae'r Awdurdod wedi ffurfio Grŵp Ymgynghori ac Ymgysylltu (CEG) sy'n gweithredu fel fforwm ymgysylltu a hyb dysgu er mwyn cryfhau ei gellir gwella ei ymagwedd gorfforaethol at ymgysylltu. Ei thasg gyntaf yw datblygu a chynnal Pecyn Cymorth Ymgysylltu, er mwyn galluogi a chefnogi'r rhai o fewn y sefydliad ehangach i ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu mewn modd cyson.
- 10 Mae'r Awdurdod yn gwybod pwy i'w gynnwys wrth ddatblygu gwaith polisi ac mae wedi integreiddio ei bedwar cofrestr rhanddeiliaid partner yn un. Mae'r gofrestr senl wedi cael ei hasesu a'i mapio ar y cyd â'r rhestri diweddaraf o randdeiliaid y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Erbyn hyn mae gan yr Awdurdod 384 o randdeiliaid, ac mae hyn yn ffurfio fforwm rheolaidd ar-lein a ddefnyddir i lywio ac ymgynghori ar ystod o bolisiau a gwybodaeth am ddiogelwch. Mae ystod ehangach o randdeiliaid yn cymryd rhan bellach gan gynnwys pob darparwr tai, a chytunwyd ar un pwynt cyswllt ar gyfer pob cyngor.
- 11 Mae gan yr Awdurdod nifer o enghreifftiau cadarnhaol ar weithgarwch ymgysylltu gyda staff, partneriaid a dinasyddion. Er enghraifft:
- cynnwys 2000 o staff rheng flaen wrth newid polisiau ac ymgymryd â digwyddiadau ymgysylltu ar lefel gorsafoedd. Mae gwelliannau diweddar yn cynnwys defnyddio system gwmwl cynadledda fideo dwyffordd o bell sy'n helpu staff mewn manau mwy anghysbell i fynychu cyfarfodydd;
 - defnyddio canlyniadau gwerthusiad o dair blynedd o waith ar ei brosiect troseddau a chanlyniadau, a gwaith gydag ysgolion, sgowtiaid a phrifysgolion a chynnwys 3,400 o bobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu'r mesurau yn ei Strategaeth Tlodi Plant 2019-2022 ac yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-25;
 - agor canolfan ymgysylltu â'r Gymuned yng ngorsaf dân Malpas, gofod i gydweithio â phartneriaid ac ymgysylltu â phobl ifanc;
 - targedu gweithgarwch atal ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed gan ddefnyddio digwyddiadau hanesyddol a gwybodaeth gan bartneriaid a dysgu o ymweliadau lach a Diogel blaenorol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhedeg trwy fatrics risg bregusrwydd yr Awdurdod o'r enw RIDGE i sicrhau bod yr Awdurdod yn darparu cyngor diogelwch i'r rhai sydd ei angen fwyaf;
 - cyflogi dau swyddog ymgysylltu penodol sy'n ymgysylltu ac yn cynnwys pobl sy'n agored i niwed a'r grwpiau sy'n eu cynrychioli mewn ymgynghoriadau ac yn gwneud gwaith ymgysylltu cynnar gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Stonewall a Mind Cymru i lunio ei ddull strategol a chymau gweithredu cysylltiedig. Arweiniodd hyn at well dealltwriaeth o anghenion a hawliau'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig;
 - gweithio'n ymarferol gydag awdurdodau lleol, elusennau, cyrff iechyd, a sefydliadau eraill i gyfuno adnoddau i integreiddio gweithgarwch ymgysylltu a lleihau'r perygl o 'flino ar ymgynghoriadau'. Ymhlith yr enghreifftiau mae ymgynghoriad ar y cyd ar gynlluniau ardal a chyrrff cyhoeddus eraill yn cyfeirio at ymgynghoriad ar-lein yr Awdurdod ar ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-25 er mwyn ennyn diddordeb;

- proses cyn-ymgyngori a arweiniodd at greu amcanion gwella blynyddol yr Awdurdod. Arweiniodd y broses cyn-ymgyngori hon, ynghyd â diwrnodau cynllunio'r Uwch Dîm Rheoli, at greu Amcanion Strategol tymor hwy a ffurfio amcanion gwella blynyddol ar gyfer 2020-21. Yna ymgynghorwyd ar y rhain yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos gan gynnwys cynllunio Arolwg Yn Fwy Diogel Gyda'n Gilydd yr Awdurdod; a
 - cynlluniwyd arolwg yr Awdurdod, Yn Fwy Diogel Gyda'n Gilydd, i geisio barn staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid am yr hyn y gall ei wneud i wella'r Gwasanaeth yn y tymor hwy. Nododd pa newidiadau allweddol y dylai'r Awdurdod eu gwneud ynghyd â meysydd y dylai ganolbwyntio llai o sylw arnynt. Derbyniodd yr Awdurdod 132 o ymatebion. Arweiniodd hyn at ffocws corfforaethol llawer cryfach ar newid yn yr hinsawdd ac atal tanau sbwriel.
- 12 Mae sicrhau bod staff a goruchwylwyr yn ymgysylltu'n well â gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn arwain at welliannau o ran hyfforddiant gweithredol a recriwtio. Er enghraifft, mae diffoddwyr tân yn fwy gwybodus ynghylch delio ag anafusion o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac mae anghenion dysgu staff sydd ag awtistiaeth yn cael eu hystyried yn well.
- 13 Caiff cwynion, sylwadau, sylw yn y cyfryngau a negeseuon am gyfryngau cymdeithasol eu gwerthuso gan yr Awdurdod a chaiff pwyntiau dysgu eu rhannu'n fewnol. Caiff materion sy'n ymwneud â chwynion yn aml eu hadolygu a'u defnyddio i lunio a darparu hyfforddiant ar faterion fel gyrru'n ddiogel mewn ardaloedd gwledig ac ystyried anifeiliaid anwes mewn argyfwng.
- 14 Mae cyfranogiad gwell gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr cynnwys digidol yn arwain at gyfathrebu mwy perthnasol. Mae Gwefan yr Awdurdod a'i thudalen Facebook gorfforaethol bellach yn fwy o adnodd cymunedol rhyngweithiol ac nid yw'n ymwneud â rhoi gwybodaeth yn unig. Ar hyn o bryd mae gan tudalen Facebook y gwasanaeth 22,000 o ddilynwyr ac mae gan gyfrif Twitter y gwasanaeth dros 26,000 o ddilynwyr diolch i'r ffordd ragweithiol y mae'r Awdurdod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
- 15 Mae Aseiad Risg Effaith Cyfunol 2019 yr Awdurdodau Tân ac Achub yn integreiddio'r aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac yn ystyried materion tymor hir ac ymgysylltu gan gynnwys "tystiolaeth eich bod wedi cynnwys partïon â diddordeb a rhanddeiliaid yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli'r nodweddion gwarchoddedig." Mae'r aseiad hwn yn nodi pwy y mae angen ei gynnwys wrth ddatblygu polisiau, gwneud newidiadau a gwella gwasanaethau.
- 16 Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n fwy effeithiol gyda thudalennau Cymraeg ar wefan yr Awdurdod gan dderbyn 36,842 o ymweliadau gan 22,358 o ymwelwyr. Mae cyrsiau Cymraeg yn cael eu cynnig i bob gweithiwr yn flynyddol ac mae gan 118 o weithwyr Sgiliau Cymraeg uwch na lefel 4 ac mae 29 o staff ychwanegol wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn.
- 17 Mae'r Awdurdod yn defnyddio adborth ac mae'n gwneud defnydd da o iaith glir, ieithoedd eraill, a fersiynau 'hawdd i'w darllen' o bolisiau a gwybodaeth. Mae staff yn ymweld ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill fel Gorllewin Canolbarth Lloegr a

Swydd Stafford i ddysgu am arferion da mewn mannau eraill ar gydraddoldeb, ymgysylltu â'r gymuned a hyfforddi staff. O ganlyniad, mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i gyflawni gwelliannau pellach.

- 18 Mae diffinio 'pobl' i fod yn rhan o'r broses yn heriol oherwydd bod ymgysylltu nid yn unig yn ymwneud â'r bobl sy'n byw yn ardal yr Awdurdod, y busnesau sy'n gweithio yn ardal yr Awdurdod a phartneriaid allweddol awdurdodau lleol ond hefyd y boblogaeth ehangach. O ganlyniad, mae angen i'r Awdurdod ystyried pobl sy'n teithio i ardal yr Awdurdod ac oddi yno.
- 19 Fodd bynnag, er gwaethaf y gwerthusiad ansawdd da o'r prosiect diweddar Yn Fwy Diogel Gyda'n Gilydd mae'r Awdurdod yn cydnabod bod mwy o gyfle i roi adborth ar ddysgu o ymgysylltu a rhannu hyn gyda phartneriaid a'r cyhoedd drwy greu crynodeb 'Fe ddywedoch chi, Fe wnaethon ni'. Er enghraifft, y canfyddiadau allweddol o brofion ar y wefan ac o ddysgu o gwynion a chymeradwyaeth. Rydym hefyd yn credu bod lle i gynnwys pobl ifanc a phartneriaid yn nyluniad a chynnwys y wefan ac mewn cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymestyn cyrhaeddiad ac effaith.
- 20 Mae gan yr Awdurdod lawer o fesurau perfformiad ar gyfer ymgysylltu, ond maent yn canolbwyntio'n bennaf ar farnu mewnbynnau ac allbynnau yn hytrach nag effaith a chanlyniadau. Er enghraifft, mae 22 o'r 25 o'r camau gweithredu BMIS yn allbynnau rhifiadol nad ydynt yn ymwneud â sut i ddangos effaith cyfathrebu, ymgynghori, ymgysylltu a chyfranogi. Gallai camau gweithredu gynnwys sut roedden nhw'n teimlo cynt ac ar ôl cael eu holi neu eu hysbysu.

Mae'r Awdurdod, gyda phartneriaid, yn darparu ac yn cydlynu ystod eang o ddigwyddiadau cymunedol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol pwysig

- 21 Mae gan yr Awdurdod raglen o ddiwrnodau agored mewn gorsafoedd sydd wedi'i chydlynu'n dda ac sy'n gysylltiedig â materion diogelwch a digwyddiadau cymunedol cenedlaethol a lleol megis Rhuban Gwyn¹, dyddiau Rhyngwladol², diogelwch ar y ffyrdd, ac a gydlynir ar draws ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ac yn cynnwys partneriaid mewn ymgyrchoedd diogelwch cymunedol ar y cyd. Mae cyfryngau cymdeithasol a gwefan yr Awdurdod yn ffenestr siop dda ar gyfer y digwyddiadau hyn. Mae'r tab digwyddiadau cymunedol yn mynd â defnyddwyr i'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol ac yn rhestru amrywiol ddigwyddiadau cymunedol gyda chyngor ar ddiogelwch wedi'i dagio sy'n ffordd dda o atgyfnerthu negeseuon atal.

¹ Ymgyrch y Rhuban Gwyn, <https://www.whiteribbon.org.uk/>

² Dyddiau Rhyngwladol y Cenedloedd Unedig, <https://www.un.org/en/sections/observances/International-days/index.html>

- 22 Mae digwyddiadau cymunedol yn integreiddio elfennau o ymgysylltu, newid ymddygiad a gweithgarwch atal. Yn y gwerthusiad o weithgareddau ymgysylltu 2019 yn nigwyddiad Sefydliadau Achub y Deyrnas Unedig (UKRO) gwelwyd amrywiaeth dda o weithgareddau ymgysylltu gan gynnwys terfynellau "hapus neu beidio". Roedd y terfynellau hyn yn golygu bod modd casglu adborth gan y cyhoedd i gwestiynau dynodedig drwy ymgysylltu ag arddangosiad botwm cyffwrdd hynod weladwy o bedwar "wyneb gwenu" gwahanol o liwiau gwahanol. Cofnodwyd 1,590 o ymatebion gan y saith terfynell yn ystod y cyfnod tri diwrnod. O ganlyniad, roedd y bobl hynny a gymerodd ran yn teimlo'n fwy gwybodys ac yn ymgysylltu.
- 23 Ym mis Medi 2019 ymunodd gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru â'i gilydd i gynnal eu penwythnos 999 cyntaf ym Mae Caerdydd. Roedd y digwyddiad yn cyddaro â dathliadau pen-blwydd Heddlu De Cymru yn 50, a gwelwyd rhaglen lawn o weithgareddau i deuluoedd, amlygiadau ac arddangosiadau yn cael eu cynnal yn y lleoliad yn ymyl y dŵr.
- 24 Defnyddiwyd y digwyddiadau UKRO yn 2018 a'r Penwythnos Gwasanaethau Brys yn Rhagfyr 2019 fel cyfle i ymgysylltu ar y cynllun corfforaethol a gwaith polisi. Ymwelodd dros 20,000 o ymwelwyr â UKRO ym Mae Caerdydd a 18,000 â phenwythnos gwasanaethau brys 999. Derbyniwyd dros 1,300 a 400 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn y drefn honno. O ganlyniad, mae gan y cynllun corfforaethol strategol newydd 2020-25 bwyslais cryfach ar faterion amgylcheddol o ganlyniad i ymgysylltiad UKRO.
- 25 Mae dysgu o gynnal digwyddiadau cymunedol wedi llunio'r wybodaeth y mae'r Awdurdod yn ei darparu i eraill. Mae ystod dda o ganllawiau diogelwch cymunedol a hunangymorth i drefnwyr digwyddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod gan gynnwys canllawiau ar gynnal parhad busnes, canllaw i wneud safleoedd yn ddiogel rhag tân, rhestrau gwirio ar gyfer trefnwyr digwyddiadau, a mesurau diogelwch tân ar gyfer adeileddau pabellog lled-barhaol. Mae ymweliadau hyfforddi a diogelwch hefyd ar gael gan y tîm diogelwch cymunedol. O ganlyniad, bu gostyngiad dramatig yn nifer y galwadau brys ar noson tân gwyllt yn chwarter cyntaf 2019-20 ac ni chafwyd unrhyw danau difrifol mewn digwyddiadau. .

Mae'r Awdurdod yn cynyddu ei alluoedd mewn rhai meysydd allweddol ond mae angen iddo integreiddio ei ddulliau gweithredu er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei ddyheadau hirdymor

- 26 Mae'r Awdurdod yn cynyddu ei allu a'i alluoedd ym maes ymgysylltu, cyfathrebu a dadansoddi data. Mae hyfforddiant Cyfathrebu â Hyder a gemau ac adnoddau addysg ar-lein yn arfer nodedig. Datblygwyd y gemau a'r adnoddau ysgol mewn cydweithrediad agos ag ysgolion lleol a'u profi gan fyfyrwyr. Mae prosiectau ymgysylltu'r dyfodol yn cynnwys datblygu canolfan casglu data dysgu lle gall yr holl staff ychwanegu gwybodaeth a dysgu am weithgarwch ymgysylltu. Mae gwaith

dadansoddi data perfformiad gwell a chronfa ddata ar ddylunio arolygon hefyd ar y gweill.

- 27 Rydym yn gweld cynnydd clir gyda'r meysydd i'w gwella o archwiliad y llynedd – yn arbennig wrth ffurfioli a mapio cydweithredu, integreiddio gweithgarwch ymgysylltu, a rhesymoli polisïau. Mae gwella'r dull strategol o ymdrin â chydweithredu yn mynd rhagddo ac mae strategaethau ymadael ar waith ar gyfer pob partneriaeth allweddol. Mae rhannu data gyda chyrrff cyhoeddus yn gwella. Er enghraifft, mae protocolau rhannu data ar waith gyda GIG Cymru a chwmnïau ynni i nodi pobl dros 65 mlwydd oed o dan amgylchiadau sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Fodd bynnag, mae llai o gynnydd yn cael ei wneud ar:
- gynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor; because
 - gwerthuso gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd; a
 - rhannu data rhwng chyrrff cyhoeddus yn enwedig gyda phartneriaid iechyd.
- 28 Mae gan yr Awdurdod le i gysylltu pethau megis recriwtio diffoddwyr tân, recriwtio gwirfoddolwyr a datblygu arweinyddiaeth i ddyheadau hirdymor, a hefyd i gysylltu rheoli asedau â gwaith partneriaid eraill.
- 29 Fodd bynnag, er gwaethaf gweithio'n agos gyda pherchnogion busnes Du ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME) a mudiadau cymunedol amrywiol i hybu recriwtio o'r gymuned BME, nid yw'r Awdurdod yn gyson yn galluogi pawb a allai fod eisiau cyfrannu at ddatblygiad polisi i wneud hynny, yn enwedig mewn ieithoedd neu gyfryngau eraill. Mae angen iddo wneud mwy i ehangu ei apêl ac annog pobl o ardaloedd sy'n fwy difreintiedig yn economaidd neu'n gymdeithasol, gan gynnwys y rheini a all fod ar incwm isel neu heb incwm, i ymgysylltu.
- 30 O ganlyniad, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai wneud mwy i gynnwys grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, mae angen iddo allu dangos ei fod yn ystyried pa un a yw'n cynnwys grwpiau cymunedol fel y rhai a amlinellir uchod a sut. Bydd gweithio drwy grwpiau cynrychioliadol ledled yr ardal leol a rhanbarth ehangach De Cymru yn helpu'r Awdurdod i ddod o hyd i ffordd effeithlon o ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol troswaol a all roi mewnwelediad a her o ran effeithiolrwydd y dulliau o ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd.

Cynigion ar gyfer gwella

- 31 Yn hytrach na rhestru cynigion ar gyfer gwella, rydym wedi llunio hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio wrth nodi cryfderau a gwendidau ei ddulliau presennol o ymgysylltu. Gellir defnyddio'r hunanasesiad hwn ar lefel strategol gorfforaethol ond hefyd ar brosiectau unigol i farnu pa mor dda mae'r Awdurdod yn ei wneud ac ymhle y mae angen newid er mwyn sicrhau bod ymgysylltu'n cael ei brif ffrydio a'i wneud yn gynaliadwy. Nid yw'r adnodd hwn i gael ei gwblhau a'i anfon at Archwilio Cymru. Mae at ddefnydd yr Awdurdod i herio, craffu a gwerthuso ei berfformiad presennol ac i nodi sut a ble y gall wella ei waith.

Arddangosyn 3: hunanasesu

Gweithredu	Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl	Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu	Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu
Mae gennym ddull strategol a fframwaith corfforaethol ar gyfer ymgysylltu sy'n cyfeirio gweithgarwch			
Rydym yn deall pwy sydd angen ei gynnwys a pham			
Rydym yn blaenoriaethu'r gofod, yr amser a'r adnoddau ar gyfer ymgysylltu ystyrlon			
Rydym wedi cynllunio ein gweithgaredd ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar ein polisiau a'n cynlluniau			

Gweithredu	Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl	Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu	Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu
Rydym wedi cynllunio ein gweithgaredd ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau			
Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd ymgysylltu'n helpu i wella eu bywydau			
Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd ymgysylltu â ni yn arwain at newid yn digwydd			
Rydym yn esbonio'r effaith y mae ymgysylltu wedi'i chael ar ein penderfyniadau, ein polisiâu a'n gwasanaethau			
Rydym yn teilwra ein dull o ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall pob dinesydd a phartner gymryd rhan			
Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau o weithgarwch ymgysylltu i lywio a gwella'r broses o lunio polisiâu a gwneud penderfyniadau			

Gweithredu	Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl	Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu	Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu
Gallwn ddangos bod ein dulliau o ymgysylltu'n arbed arian ac yn osgoi dyblygu gyda'r gweithgareddau tebyg a gyflawnir gan ein partneriaid			
Mae ein dulliau o ymgysylltu'n caniatáu i'n partneriaid ein dal ni i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn			
Mae ein dulliau o ymgysylltu'n caniatáu i ddinasyddion ein dal i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn			
Mae ein dulliau o ymgysylltu'n bleserus ac yn werth chweil			
Mae ein dulliau o ymgysylltu'n ein helpu i integreiddio ein gwaith i osgoi seilos			
Rydym yn defnyddio canlyniad ein gwaith ymgysylltu i weithio'n gyd-gynhyrchiol i gynllunio a darparu gwasanaethau			

Gweithredu	Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl	Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu	Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu
Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o ymgysylltu er mwyn dysgu beth sy'n gweithio			
Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o ymgysylltu er mwyn nodi'r hyn sydd angen gwella			

Atodiad 1

Enghreifftiau o ddulliau ymgysylltu yn Awdurdodau Tân ac Achub y DU

Mae Awdurdodau Tân ac Achub eraill yn y DU yn cynnwys eu rhanddeiliaid yn strategol a lle mae hyn yn gweithio'n dda, maent yn tueddu i wneud hyn yn rheolaidd ac yn gydweithredol.

Yn 2019 cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i ymgynghoriad³ 'Your Service, Your Voice' ynghylch trawsnewid y gwasanaeth ac integreiddio gweithredol agosach gyda Gwasanaeth Ambiwlans yr Alban. Yn gyffredinol, cafwyd 1563 o ymatebion i'r ymarferiad, gyda'r mwyafrif ohonynt gan unigolion, a 32 o bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ac 85 o sefydliadau eraill. Roedd y dulliau'n cynnwys cyfres wedi'i chynllunio'n dda o ymarferion gwybodaeth i'r cyhoedd i'w paratoi ac egluro beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud a sut y bydd y cyhoedd yn elwa o newid. Cafodd gwerth tair blynedd o ganfyddiadau ymgynghoriadau a chwynion eu hadolygu hefyd i ddod o hyd i unrhyw dueddiadau. Ystyriwyd rhoi ystyriaeth i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwahanol a chanddynt nodweddion gwarchoddedig hefyd, a chafodd grwpiau cynrychioliadol eu cynnwys yn gynnar yn y broses er mwyn cynllunio'r ymarfer. Un canfyddiad allweddol yw mai ffocws parhaus ar atal yw'r ffordd orau o amddiffyn unigolion. Fodd bynnag, er bod y staff yn agored i newid, mae'r ymarfer yn gweld hefyd bod y cyhoedd yn fwy amheus ac yn gweld cynigion fel rhai sy'n cynnal diffygion mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Dwyrain Sussex yn cynnal gweithgarwch ymgysylltu rheolaidd yn hytrach nag ymgynghoriadau 'unigol' ar fater penodol. Rhennir calendr blynyddol o weithgarwch ymgysylltu â phartneriaid ac mae gweithgarwch yn cael ei gydgyssylltu a'i integreiddio ag eraill lle bo modd. Profir syniadau a chynigion yn rheolaidd drwy fforwm ar-lein yr Awdurdod ac mewn sesiynau diogelwch cymunedol pwrpasol gan y panel dinasyddion a arweinir gan y Cyngor Sir. Mae gan bob sesiwn "Ask the Fire Authority", diwrnodau agored a sioeau teithiol yn yr ardal thema sy'n seiliedig ar amcan corfforaethol a chaiff y canlyniadau eu hadolygu'n annibynnol gan banel cyfeirio rhanbarthol o arbenigwyr, yn ogystal â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Lleol. Cynhelir arolygon rheolaidd ar themâu yn hytrach na pholisïau. Mae cyfres o Egwyddorion Ymgynghori wedi'u nodi ar wefan yr Awdurdod⁴.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Swydd Efrog yn ymgysylltu'n rheolaidd â'i gymunedau i roi'r cyfle iddynt ddweud beth y maent am ei gael gan yr Awdurdod. Mae Gorllewin Swydd Efrog yn ymgysylltu'n gynnar cyn iddynt ddatblygu cynlluniau, rhannu data a gwybodaeth gyda phartneriaid ar gynllunio gweithgarwch ymgysylltu. Mae'r Awdurdod yn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd megis teithwyr, ac mae ei waith ymgysylltu wedi'i integreiddio yn ei weithgarwch cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae'r Awdurdod yn cynnal arolygon a gwerthusiadau ar-lein rheolaidd ar ansawdd y gwasanaeth; bodlonrwydd, cwynion; ymweliadau ag ysgolion; Ymweliadau Safe & Well; a newidiadau i'r ddarpariaeth i ymdrin â thân. Mae'r Awdurdod o'r farn nad yw pobl yn gwybod digon o reidrwydd am rôl ehangach y gwasanaeth tân ac achub. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i randdeiliaid roi sylwadau am rywbeth nad ydyn nhw'n gwybod rhyw lawer amdano. Mewn ymateb mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu canllaw a fideo

³ Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban, Your service Your voice, <https://firescotland.citizenspace.com/sfrs-Communications/Your-Service-Your-Voice/>

⁴ Gwasanaeth Tân ac Achub Dwyrain Sussex, Getting involved, <https://www.esfrs.org/contact-us/getting-involved/>

ar-lein rhyngweithiol am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod⁵. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a pha bethau sy'n newid o ganlyniad wedi eu cyhoeddi ar-lein.

⁵ Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Swydd Efrog, Canllaw Gwasanaeth Cwsmeriaid, <http://www.wyfs.co.uk/wp-content/uploads/2018/10/CS-NFG023-CustomerServiceGuide-1.pdf>



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffon: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffon testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.